OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 111 (Cy. 26)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 81(6)(d), 84(f), 87, 107(8) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Ebrill 2018.

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

**2.**—(1) Mae rheoliad 12 (penderfyniad lleoli) o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**2**) wedi ei ddiwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (6)(b) hepgorer "ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y lleoliad".

(3) Ym mharagraff (8), yn lle'r diffiniad o "hysbysu" rhodder—

""ystyr "hysbysu" ("*notified*") ym mharagraff (6)(b) yw fod rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddarparu—

(a) ddim hwyrach na 24 awr ar ôl gwneud y lleoliad—

(i) enw a dyddiad geni C,

(ii) cadarnhad ynghylch a yw C yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar sail wirfoddol(**3**) neu o dan orchymyn gofal(**4**),

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) *Gweler* adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
(**4**) *Gweler* adran 31(11) o Ddeddf Plant 1989 (p. 41).

(iii) manylion am unrhyw un neu ragor o'r gorchmynion a ganlyn sydd wedi eu gwneud mewn perthynas ag C ac sy'n parhau mewn grym—

(aa) unrhyw orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989(**5**),

(bb) gorchymyn adsefydlu ieuenctid, gofyniad preswylio awdurdod lleol neu orchymyn adsefydlu ieuenctid â maethu(**6**),

(cc) gorchymyn goruchwylio gorfodol neu orchymyn goruchwylio gorfodol interim(**7**), a

(iv) manylion am unrhyw ffactorau amddiffyn plant neu ffactorau risg sylweddol sy'n ymwneud ag C, gan gynnwys unrhyw berygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, materion iechyd corfforol neu iechyd meddwl, hanes o ddianc a/neu ymwneud ag asiantaethau cyfiawnder ieuenctid, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffactorau hynny; a

(b) ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y lleoliad—

(i) manylion o'i asesiad o anghenion C a'r rhesymau pam yr ystyrir mai'r lleoliad a ddewiswyd yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwallu anghenion C, a

(ii) copi o gynllun gofal a chymorth C os na ddarparwyd copi ohono eisoes;".

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Ionawr 2018

(**5**) 1989 p. 41.
(**6**) *Gweler* adran 7 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4).
(**7**) Gweler adrannau 83 a 86 o Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011 (dsa 1).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rhan 3 o Reoliadau 2015 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch lleoli plentyn sy'n derbyn gofal, gyda rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r ardal.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at yr wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod cyfrifol ei hysbysu i'r awdurdod lleol y tu allan i'r ardal neu'r awdurdod lleol yn Lloegr y lleolwyd y plentyn yn ei ardal o dan reoliad 12(8) o Reoliadau 2015, ac y mae rhaid ei chyflenwi ddim hwyrach na 24 awr ar ôl gwneud y lleoliad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.